| | | |
|---|---|---|
| | **Dyddiad a Crëwyd:** | 21/05/2018 |
| | **Dyddiad y Cyhoeddwyd:** | 25/05/2018 |
| | **Rhif y Fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Uned Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol |
| **Maes Gwaith:** | TG a Gwasanaethau Canolog – Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Manylion cyswllt:** | Rhif Ffôn: 01443 864320<br>E-bost: rhyddidgwybodaeth@caerffili.gov.uk / diogeludata@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Ceisiadau am wybodaeth/hawliau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliad Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r ddeddfwriaeth Diogelu Data. |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro'r modd y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi amdanoch eich hun os byddwch yn gwneud cais am wybodaeth neu hawliau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, neu'r ddeddfwriaeth Diogelu Data. |

# Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth?

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu eich cais, yr wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais, eich hunaniaeth, a'ch manylion cyswllt at ddibenion rhoi ymateb i chi. Byddwn naill ai'n rhoi'r wybodaeth/hawl yr ydych wedi gofyn amdani, neu'n egluro'r rhesymau pam na allwn wneud hynny.

- Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi hawl mynediad cyffredinol i gyrchu gwybodaeth gofnodedig a gedwir gan awdurdod cyhoeddus.
- Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn rhoi hawl mynediad i gyrchu gwybodaeth amgylcheddol a gedwir gan awdurdod cyhoeddus.
- Mae'r ddeddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i'r testunau data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn ymwneud â nhw) mewn perthynas â gwybodaeth a gedwir amdanynt, ac fe'u hamlinellir o dan yr adran 'Eich Hawliau' yn y ddogfen hon.

### Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol
Mae tasg gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus brosesu eich gwybodaeth, fel y manylir isod:

Adran 10(1) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
Rheoliad 5(1) Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

Er mwyn sicrhau bod y gwaith prosesu data personol yn gyfreithlon o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

1e. mae'r gwaith prosesu yn angenrheidiol i gyflawni tasg sy'n cael ei chynnal mewn perthynas â budd y cyhoedd, neu wrth gynnal yr awdurdod swyddogol a freiniwyd i'r rheolwr;

Hawliau Diogelu Data
Manylir isod ar y gofyniad statudol i brosesu eich gwybodaeth:

Erthyglau 12-23, Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016

Er mwyn sicrhau bod y gwaith prosesu data personol yn gyfreithlon o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

1(c) mae'r gwaith prosesu yn angenrheidiol i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, lle bo'r rheolydd yn wrthych.

Mae'r ddeddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai mathau o wybodaeth, sef y 'data personol arbennig'. Os bydd unrhyw gwestiwn yn codi sy'n perthyn i'r diffiniad o ddata personol arbennig, yna bydd yn rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel y nodir isod:

2g. mae'r gwaith prosesu yn angenrheidiol am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd, ac ar sail cyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth, a fydd yn gymesur â'r nod a ddilynir, yn parchu hanfod yr hawl i ddiogelu data, ac yn darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a buddiannau sylfaenol y testun data;

## Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

**Hunaniaeth y Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk
Rhif Ffôn: 01443 864322

**Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Bydd eich cais, gan gynnwys eich hunaniaeth a'ch manylion cyswllt, yn cael ei rannu â meysydd gwasanaeth perthnasol ac aelodau etholedig a allai gadw'r wybodaeth yn ymwneud â'ch cais at ddibenion y gwaith o brosesu eich cais, a pharatoi ymateb ar eich cyfer.

Bydd Uned Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cefnogi'r broses trwy gofnodi ceisiadau, dosbarthu'r ceisiadau i feysydd gwasanaeth perthnasol ac i aelodau etholedig, rhoi cyngor ar y gwaith o brosesu ceisiadau er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth briodol, yn ogystal â gwirio cydymffurfiad yr

ymatebion cyn eu cyhoeddi. Yn achos rhai ceisiadau, efallai y byddwn hefyd yn casglu'r wybodaeth berthnasol ac yn cyhoeddi ymateb ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Gallai cyngor cyfreithiol ychwanegol gael ei ddarparu gan Wasanaethau Cyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a gallai cywirdeb yr ymatebion gael eu gwirio cyn eu cyhoeddi gan yr uwch-swyddogion perthnasol.

Bydd ceisiadau am adolygiad mewnol o ymatebion yn ymwneud â Rhyddid Gwybodaeth/Gwybodaeth Amgylcheddol, neu gwynion mewn perthynas â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi mynd i'r afael â chais i ddeddfu ar eich hawliau o dan y ddeddfwriaeth Diogelu Data, yn cael eu gweinyddu gan yr Uned Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol, ond fe'u pennir gan uwch-swyddog priodol. Bydd cyngor cyfreithiol yn cael ei gynnig gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, lle bo angen.

Gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyhoeddi gwybodaeth ystadegol mewn perthynas â cheisiadau a ddaw i law ac ymatebion a gyhoeddir, ond ni fydd hynny'n cael ei wneud mewn modd a fydd yn datgelu hunaniaeth yr ymgeisydd. Gallwn hefyd gyhoeddi ceisiadau go iawn a ddaw i law mewn perthynas â Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, ynghyd ag ymatebion a gyhoeddir, ond, fel yr uchod, ni fydd hynny'n cael ei wneud mewn modd a fydd yn datgelu hunaniaeth yr ymgeisydd.

**Manylion unrhyw arferion o ran rhannu eich gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Os ydych wedi cwyno wrth Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth, neu wrth bobl eraill mewn perthynas â'r gwaith o brosesu eich cais, efallai y bydd copïau o'ch cais, eich ymateb, ac unrhyw ohebiaeth berthnasol ychwanegol rhyngoch chi a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael eu rhannu â nhw.

Gellir ceisio am gyngor cyfreithiol allanol mewn perthynas â'r gwaith o brosesu eich cais. Bydd eich hunaniaeth yn cael ei rhyddhau dim ond os bydd hynny'n berthnasol.

<u>Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol</u>
Gellir ymgynghori â sefydliadau ac unigolion eraill a allai gael eu heffeithio yn sgil datgelu'r wybodaeth yr ydych wedi ceisio amdani, a hynny cyn y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y datgeliad. Ni fydd eich hunaniaeth na'ch manylion cyswllt yn cael eu rhyddhau.

<u>Diogelu Data – Mynediad at Ddata gan y Testun</u>
Gellir ymgynghori â sefydliadau ac unigolion eraill a allai gael eu heffeithio yn sgil datgelu'r wybodaeth yr ydych wedi ceisio amdani, a hynny cyn y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y datgeliad. Efallai y bydd eich hunaniaeth yn cael ei rhyddhau.

<u>Diogelu Data – Hawliau mewn perthynas â Chywiro, Dileu a Chyfyngu ar ddata personol</u>
Os yw eich cais i gywiro, dileu neu gyfyngu ar ddata personol yn llwyddiannus, mae cyfrifoldeb arnom i roi gwybod i'r sefydliadau yr ydym wedi trosglwyddo eich gwybodaeth iddynt am hynny, lle bo'n bosibl.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

### Manylion y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu trwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Bydd eich cais, ynghyd â'n hymateb, yn cael eu cadw am dair blynedd. Efallai y bydd rhai ceisiadau ac ymatebion yn cael eu cadw am gyfnod hwy, ond bydd hyn yn cael ei wneud mewn modd anhysbys.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

### Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i'r testunau data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt), gan gynnwys:

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk.

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

### Y Weithdrefn Gwynion

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

www.caerffili.gov.uk/My-Cyngor/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints